Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Arolwg cludiant i ddysgwyr ôl-16 sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

## Cefndir

Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg nifer o geisiadau am gyngor ynglŷn â chludiant i ddysgwyr ôl-16 sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Cyflwynwyd y ceisiadau gan fudiadau ac unigolion yn sgil diwygio darpariaeth rhai awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn dilyn hyn, penderfynodd y Comisiynydd gasglu tystiolaeth am ddysgwyr ôl-16 a threfniadau awdurdodau lleol i ddarparu cludiant ar eu cyfer.

Ar 2 Ebrill 2015 anfonwyd llythyr at Gyfarwyddwyr Addysg holl awdurdodau lleol Cymru, yn gofyn iddynt ymateb i arolwg am drefniadau cludiant i ddysgwyr ôl-16. Cynhwyswyd cwestiynau am:

- y trefniadau cyfredol ac unrhyw ffioedd a godir
- nifer a chanran y dysgwyr ôl-16 sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog
- diwygiadau i'r trefniadau ac unrhyw asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

Erbyn diwedd mis Gorffennaf roedd 21 o 22 awdurdod wedi ymateb i'r arolwg. Yr eithriad oedd Cyngor Sir Gaerfyrddin. Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau isod.

## Trefniadau cyfredol

Mae wyth awdurdod lleol yn codi ffi ar ddysgwyr ôl-16 sy'n dymuno defnyddio cludiant, gan amrywio o £60 i £380. Crynhoir y ffioedd fel a ganlyn:

| Ffi flynyddol | Nifer yr awdurdodau |
|---|---|
| < £100 | 1 |
| £100 - £200 | 3 (un yn codi £300 ar gyfer cludiant y tu hwnt i'r dalgylch) |
| £250 - £300 | 2 |
| > £300 | 2 |

Bwriad un awdurdod, fel cam cyntaf, yw codi'r ffi o £60 i £80 (cynnydd o 33%) o fis Medi 2015. Roedd dau awdurdod arall wedi cynyddu'r ffi ers 2012/13. Mewn un achos, codwyd y ffi o £45 i £347 (cynnydd o 671%). Er i'r awdurdod dan sylw gydnabod yr anawsterau a fyddai'r newid yn ei achosi i deuluoedd, ni chynhaliodd asesiad effaith gan nad oedd yn newid polisi. Mae'r awdurdod yn cydnabod bellach fod hyn yn amryfusedd. Yn yr ail achos, codwyd y ffi o £255 i £380 (cynnydd o 49%). Aseswyd yr effaith ar gydraddoldeb a daeth yr awdurdod i'r casgliad y byddai'r newid yn effeithio'n gyfartal ar bob dysgwr a oedd yn defnyddio cludiant, gan ystyried materion iaith, ffydd, darpariaeth prif ffrwd a phellter.

### Dysgwyr sy'n dibynnu ar gludiant

Cyflwynodd 15 o awdurdodau wybodaeth am ganran y dysgwyr sy'n dibynnu ar gludiant am ddim neu gludiant a gynorthwyir gan yr awdurdod lleol. Yn achos y mwyafrif, mae hyn yn berthnasol i 50% neu fwy o'r dysgwyr ôl-16 sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Crynhoir yr wybodaeth fel a ganlyn:

| **Canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sy'n dibynnu ar gludiant** | **Nifer yr awdurdodau** |
|---|---|
| < 10% | 0 |
| 10% - 19% | 1 |
| 20% - 29% | 0 |
| 30% - 39% | 0 |
| 40% - 49% | 1 |
| 50% - 59% | 5 |
| 60% - 69% | 1 |
| 70% - 79% | 1 |
| 80% - 89% | 2 |
| 90% - 100% | 4 |

Darparodd un awdurdod nifer y dysgwyr ôl-16 ond canran yr holl ddisgyblion sy'n dibynnu ar gludiant. Cyflwynodd dau awdurdod nifer y dysgwyr ond nid y canran, ac yn achos y tri arall ni chyflwynwyd gwybodaeth am yr agwedd hon. Nododd dau ohonynt nad oedd manylion ar gael am y dysgwyr sy'n dibynnu ar gludiant am ddim.

Nid yn unig nad oedd modd i rai awdurdodau ddarparu gwybodaeth am y dysgwyr ôl-16 sy'n dibynnu ar gludiant, nid oedd modd i chwech ohonynt nodi cost y ddarpariaeth i'r awdurdod. Yn achos dau ohonynt, nid oedd modd gwahanu cost

cludiant i ddysgwyr ôl-16 o gyfanswm cost cludiant ysgolion. Yn achos y pedwar arall, nid oedd modd gwahanu cost cludiant dysgwyr cyfrwng Cymraeg o gost cludiant dysgwyr cyfrwng Saesneg.

### Dilyniant

Gofynnwyd i'r awdurdodau nodi nifer y dysgwyr a oedd yn debygol o fynychu addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn y dyfodol. Nid oedd modd i bum awdurdod ddarparu'r wybodaeth hon. Nododd un ohonynt y gallai newid arfaethedig i'w bolisi cludiant, sef diddymu cludiant am ddim, effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, roedd ansicrwydd ynglŷn ag union natur yr effaith.

Cyflwynodd un awdurdod amcangyfrif cyffredinol ar gyfer addysg ôl-16 yn y dyfodol, heb fanylu ar y nifer a fyddai'n debygol o fynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Darparodd awdurdod arall nifer y dysgwyr a fyddai'n gymwys i dderbyn addysg ôl-16 yn ystod y tair blynedd nesaf. Ni ddarparodd y ddau awdurdod hyn nifer cyfredol y dysgwyr ôl-16 cyfrwng Cymraeg ac felly nid oedd modd cymharu'r ffigurau.

Rhagwelai saith awdurdod y byddai nifer y dysgwyr yn aros yn gyson ar y cyfan. Nododd un ohonynt ei fod yn gobeithio cynnal nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun cwymp o 10% yn nifer y dysgwyr yn gyffredinol. Rhagwelai saith awdurdod gynnydd yn nifer y dysgwyr, gan amrywio o gynnydd bach o 10 i gynnydd sylweddol o 148 erbyn 2024. Yn achos yr awdurdod a fydd yn profi'r cynnydd mwyaf, sef cynnydd o 54%, nododd hefyd fod 84% o'i ddysgwyr ôl-16 yn dibynnu ar gludiant.

### Diwygiadau arfaethedig

Mae 13 awdurdod yn diwygio eu trefniadau neu yn ystyried gwneud hynny. O'r rhain, mae tri yn ystyried diddymu cludiant am ddim, dau yn ystyried diddymu'r ddarpariaeth neu gyflwyno ffi, a phedwar arall yn ystyried cyflwyno ffi neu gynyddu'r ffi bresennol. Bydd tri awdurdod yn cyflwyno newidiadau ym mis Medi 2015 ac mae tri arall yn ystyried cyflwyno newidiadau ym mis Medi 2016.

O'r 13 awdurdod dan sylw, nododd dau eu bod wedi cynnal asesiad effaith. Nododd tri arall eu bod wedi cynnal ymgynghoriad yn ogystal ag asesiad effaith. Darparwyd copïau o ddogfen ymgynghori, tri asesiad effaith ac adroddiad ar ganlyniadau ymgynghoriad ac asesiad effaith.

Amrywiai'r math o wybodaeth a gynhwyswyd yn y dogfennau hyn. Mewn un asesiad effaith cafwyd canlyniadau ymgynghoriad, a ofynnodd i'r cyhoedd a fyddai diddymu cludiant am ddim yn debygol o effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg ac a ddylid

gwarchod ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd rhestr o nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys yr effaith ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg a'u teuluoedd dan y nodwedd 'hil'. Mewn asesiad effaith arall, roedd y Gymraeg yn un o nifer o nodweddion a restrwyd, ynghyd ag effeithiau posibl a chamau i'w lliniaru. Nid oedd cyfeiriad at y Gymraeg mewn asesiad effaith arall. Yn achos yr adroddiad, cynhwyswyd ymateb i sylw a wnaethpwyd yn ystod yr ymgynghoriad am effaith posibl newid meini prawf y pellter teithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cynhwyswyd asesiad effaith polisi mewn atodiad, gan restru'r Gymraeg gydag elfennau eraill ym maes cydraddoldeb.

Roedd amrywiaeth hefyd yn y modd y dadansoddodd yr awdurdodau effeithiau posibl newidiadau polisi. Nododd un awdurdod y credai rhai a ymatebodd i'w ymgynghoriad y byddai diddymu cludiant am ddim yn cael effaith anghymesur ar yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg oherwydd dalgylch eang yr ysgol. Cydnabu'r awdurdod y gallai nifer y dysgwyr ôl-16 cyfrwng Cymraeg ddisgyn gan y gallai disgyblion ddewis parhau â'u haddysg mewn sefydliad arall. Gallai hyn olygu na fyddai addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn hyfyw mwyach, gan arwain at effaith arwyddocaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg a hybu'r Gymraeg yn y sir. Nodwyd y byddai rhaid ystyried yr effaith hon yn syth.

Cyfeiriodd awdurdod arall at y Gymraeg wrth asesu effaith y cynnig i ddiddymu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16. Cydnabu y gallai'r cynnig effeithio ar allu dysgwyr i gael addysg bellach ac mai dewis cyfyngedig sydd gan ddysgwyr sy'n dymuno cael addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

Penderfynodd awdurdod arall, o fis Medi 2015, ddarparu cludiant o fannau casglu penodol o fewn tair milltir i gartrefi disgyblion ysgol uwchradd. Yn ei ymateb i'r arolwg, nododd yr awdurdod na fyddai'r newid yn cael effaith anghymesur ar y Gymraeg ac y byddai'n effeithio ar yr holl ddisgyblion a ddymunai ddefnyddio'r gwasanaeth. Nid oedd cyfeiriad at y Gymraeg yn y ddogfen asesu effaith berthnasol.

Bwriad awdurdod arall, o fis Medi 2015, yw darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sy'n byw dair milltir i ffwrdd o'u sefydliad addysg, yn hytrach na dwy filltir i ffwrdd. Wrth asesu effaith y newid o safbwynt cydraddoldeb, nododd yr awdurdod na fyddai'n effeithio ar y Gymraeg.

Nododd pedwar awdurdod arall fwriad i gynnal asesiad effaith wrth adolygu neu addasu eu polisïau. Nododd un o'r awdurdodau hyn nad oedd yn rhagweld y byddai'r newid arfaethedig (cynyddu ffi) yn effeithio ar y Gymraeg yn benodol. Gwnaeth awdurdod arall yr un sylw am yr un newid, heb ymrwymo i gynnal asesiad effaith.

Nododd awdurdod arall ei fod yn bosibl y byddai'n adolygu cludiant i ddysgwyr yn y dyfodol agos, er iddo gynnal ymgynghoriad yn 2014. Roedd y dewisiadau a ystyriwyd bryd hynny yn cynnwys cyflwyno ffi o £230 i ddysgwyr ôl-16 a diddymu cludiant am ddim. Fodd bynnag, penderfynwyd parhau i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16, i sefydliadau lleol penodol o fis Medi 2015. Nododd yr awdurdod ei fod wedi ystyried effaith y diwygiadau arfaethedig ar y Gymraeg wrth ddod i benderfyniad.

### Diwygiadau yn y gorffennol

Gofynnwyd i'r awdurdodau gyflwyno gwybodaeth am unrhyw newidiadau i'w trefniadau cludiant ers 2012/13. Fel y nodwyd uchod, roedd dau awdurdod wedi cynyddu'r ffioedd i ddysgwyr. Nododd un awdurdod nad oedd yn rhagweld cwymp yn nifer y dysgwyr ôl-16 yn ystod y blynyddoedd nesaf. Eglurodd yr awdurdod arall nad oedd y newid wedi arwain at gwymp yn nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n derbyn grant cludiant i fynychu addysg cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r sir. Eglurodd hefyd ei fod yn cynnal ymgynghoriad am sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn y sir.

Roedd un awdurdod arall wedi diwygio ei drefniadau ond ni ddarparodd fanylion. Ni chynhaliodd asesiad effaith gan ei fod yn ystyried y sefyllfa yn niwtral o ran manteision ac anfanteision. Cyfeiriodd at ganran y dysgwyr a arhosodd yn yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn derbyn addysg ôl-16 ar ôl 2012/13 a nodi ei fod wedi cyrraedd y targed a osodwyd yn ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (70%).

### Asesu effaith

Mae'r gwahaniaethau a ddisgrifir uchod yn amlygu anghysondeb yn y modd y mae awdurdodau yn cynnal asesiadau effaith ac yn dod i gasgliadau ar sail yr ymarferion hynny. At hynny, mae anghysondeb yn y modd y mae awdurdodau yn penderfynu a ddylid cynnal asesiad ai peidio. Amlygir hyn gan y penderfyniad a ddisgrifiwyd uchod gan ddau awdurdod i gynyddu ffioedd. Fel y nodwyd, cynhaliwyd asesiad effaith mewn un achos ond nid yn y llall, gan nad ystyriai'r awdurdod dan sylw fod newid ffi yn gyfystyr â newid polisi. Er y cymeradwyir y penderfyniad i gynnal asesiad effaith yn yr ail achos, ni ellir cytuno â'r casgliad fod cyflwyno'r un ffi i bob dysgwr yn effeithio'n gyfartal ar bob dysgwr. Ni ddarparwyd tystiolaeth i gefnogi'r safbwynt hwnnw.

### Prif gasgliadau'r arolwg

I gloi, nodir y canfyddiadau canlynol.

1. O safbwynt cost cludiant i ddysgwyr, ceir amrywiaeth eang nid yn unig rhwng yr awdurdodau sy'n darparu cludiant am ddim a'r rhai sy'n codi ffioedd, ond

rhwng y rhai sy’n codi ffioedd. Mae’r ffi uchaf dros chwe gwaith yn uwch na’r isaf.

2. Mae 50% neu fwy o’r dysgwyr ôl-16 sy’n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn dibynnu ar gludiant, yn achos mwyafrif yr awdurdodau a ymatebodd i’r arolwg.

3. Nid oedd pob awdurdod a ymatebodd i’r arolwg yn gallu darparu gwybodaeth am y dysgwyr ôl-16 sy’n dibynnu ar gludiant, cost y ddarpariaeth i’r awdurdod na nifer tebygol y dysgwyr yn y dyfodol.

4. Mae dros hanner yr awdurdodau yn diwygio eu trefniadau neu yn ystyried gwneud hynny, a dros chwarter yn bwriadu cyflwyno newidiadau yn ystod y ddwy flynedd academaidd nesaf.

5. Nid oes cysondeb rhwng yr awdurdodau yn y modd yr asesir effaith newidiadau polisi ar y Gymraeg. Oherwydd hyn, a’r diffyg manylion y cyfeirir ato uchod, nid yw’n eglur a yw pob awdurdod yn adnabod goblygiadau tymor hir newidiadau i drefniadau cludiant ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.